# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 15 Mai 2018

Amser: 08.30 - 08.33

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC, Llywydd (Cadeirydd)<br>Julie James AC<br>Paul Davies AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Gareth Bennett AC |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Rhuanedd Richards, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

# 2 Cofnodion o'r cyfarfod blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod ar gyfer eu cyhoeddi.

# 3 Trefn busnes

## 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

- Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio ar ôl yr eitem olaf o fusnes.

**Dydd Mercher**

- Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio cyn y Ddadl Fer. Bydd pleidlais electronig ar y Ddadl ynghylch Polisi Urddas a Pharch y Cynulliad ddydd Mercher. Ni fydd cynnig i dderbyn y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36 ar ddiwedd yr eitem, ac yn lle hynny caiff y bleidlais ei gohirio'n awtomatig tan y cyfnod pleidleisio.

## 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

## 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 13 Mehefin 2018 –**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau: Bywyd ar y strydoedd: atal a mynd i'r afael â chysgu ar y stryd yng Nghymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

Cytunodd Rheolwyr Busnes i gais ar y cyd gan Mick Antoniw a Sian Gwenllian i gyfnewid eu slotiau ar gyfer Dadl Fer (yn wreiddiol ar 13 ac 20 Mehefin, yn y drefn

honno). Bydd Dadl Fer Sian Gwenllian bellach yn ymddangos ar y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes ar gyfer 13 Mehefin, a bydd Dadl Fer Mick Antoniw yn symud i 20 Mehefin.